

## Gras

### Darlleniad: Effesiaid 2, 5

---

---

*‘Crefydd gras yw crefydd y Beibl.’* (James Moffatt)

Diolchwn i Ti, O! Dduw am dy ras tuag atom fel pobl. Pobl sy'n haeddu dim ym ni, ond bod dy ras anfeidrol Di dy Hun yn cyffwrdd â'r gwannaf ohonom, ac yn cyffwrdd â ni yng nghanol ein gwendidau a'n ffaeleddau. 'Rwyd Ti'n deall pob un ohonom, ac oherwydd dy adnabyddiaeth lwyr ohonom, y mae'r gras sydd ynot yn ymdreiddio ohonot i mewn i'n bywyd sâl, tila ni. Yn dy ras y'n ceraist ni a gwneud hynny'n derfynol ym Mherson Iesu Grist, yn ei fywyd, ei Aberth a'i Atgyfodiad.

‘Gras o'r fath beraidd sain,  
I'm clust, hyfrydlais yw;  
Hwn bair i'r Nef ddatseinio byth,  
A'r ddaear oll a glyw.’

Llaw dy ras a'n carodd, llaw dy ras a'n cynhaliodd hyd yma, a llaw dy ras fydd yn coroni'r cyfan ‘draw mewn anfarwol fyd.’

Yr ydym mor aml, Arglwydd, mor hunan-gyfiawn, mor ddi-dosturi ac mor ddall i'n cyflwr ysbrydol ein hunain ac eraill. Maddau i ni am fethu gweld dy ras yn gweithio ynom. Maddau i ni'n fwy am wrthod i'th ras ymwneud â ni, ac fe wyddom Arglwydd, mai canlyniad hynny yw byw bywyd hunan-foddhaus, beirniadol a digariad. Pâr i ni atgoffa'n hunain yn feunyddiol mai dy ras Di yn unig a'n hachubodd o gyflog pechod i fywyd o oleuni ac i ran o dragwyddoldeb hyd nes y'n cyflawnir ni yn llawn yn y Nefoedd.

Cyflwynwn i ti heddiw, bawb sydd wedi syrthio oddi wrth ras ac sydd mewn angen am ddogn ychwanegol ohono i'w codi o bwll trueni ac anobaith. Diolch am nad yw ffynnon Dy ras byth yn sychu

fel ag y mynegodd yr emynydd:

‘Heddiw’r ffynnon a agorwyd  
Disglair fel y grisial clir,  
Y mae’n llanw ac yn llifo  
Dros wastadedd Salem dir;  
Bro a bryniau  
A gaiff brofi rhin y dŵr.

Y mae rhinwedd gras y nefoedd  
O dragwyddol faith barhad;  
Nid oes darfod byth ar effaith  
Perffaith haeddiant dwyfol waed:  
Ac er golchi,  
Nant heb lwydo, nant heb drai.’

Fel y gwyddom, Arglwydd, parhau i lifo y mae dy ras ac fe fydd yn llifo eto tra bydd sôn am Iesu a’i farwol glwy’. Boed i ninnau ymateb i’r alwad i ddod ato a derbyn yn helaeth o’i ras.

Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist ein Ceidwad. Amen.

*Iwan Ll Jones*